**Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth Chwefror 2025**

# CYMRAEG – IAITH FODERN

Amser a ganiateir: 1.5 awr (90 munud)

**Atebwch BOB cwestiwn**

---

## A: Darllen a Deall

Darllenwch yr erthygl isod ac atebwch y cwestiynau gan ysgrifennu brawddegau llawn. (25%)

**Cipolwg ar fydoedd ar-lein plant ifanc**

Mae plant bach ar-lein fwy a mwy ac yn cael mwy a mwy o annibyniaeth ddigidol gan rieni, yn ôl astudiaeth flynyddol Ofcom o berthynas plant â'r cyfryngau a'r bydoedd ar-lein.

O'i gymharu â blwyddyn yn ôl, mae cyfran uwch o blant 5-7 oed yn mynd ar-lein i anfon negeseuon neu wneud galwadau llais/fideo (59% i 65%) neu i wylio cynnwys sy'n cael ei ffrydio'n fyw (39% i 50%).

Yn yr un modd, mae'r defnydd cyffredinol o apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol ymysg plant 5-7 oed wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall (30% i 38%), gyda WhatsApp (29% i 37%), TikTok (25% i 30%), Instagram (14% i 22%) a Discord (2% i 4%) yn gweld twf penodol ymysg y grŵp oedran hwn.

Mae chwarae gemau ar-lein ymysg plant 5-7 oed hefyd wedi gweld cynnydd blynyddol sylweddol – 41%, i fyny o 34% – gyda mwy o blant o'r oedran hwn yn chwarae gemau saethu nag erioed o'r blaen (15%, i fyny o 10%).

Daw ymchwil heddiw wrth i Ofcom baratoi i ymgynghori yn yr wythnosau nesaf ar set gynhwysfawr o gynigion i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn well ar-lein. Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi maes ffocws ychwanegol ar gyfer diogelwch plant heddiw, gan adeiladu ar y mesurau cadarn a nodir yn ein Codau Ymarfer drafft ar niwed anghyfreithlon.

1. Pwy sydd wedi cyhoeddi'r ymchwil?
2. Beth sydd gan yr ymchwil i'w ddweud am rieni?
3. Yn ôl yr ymchwil, pa ap sydd fwyaf poblogaidd ymhlith plant 5-7 oed?
4. Beth yn eich barn chi yw'r darganfyddiad pwysicaf, a pham?

5. A ddylem boeni am blant 5-7 oed yn mynd ar-lein? Pam?

## B: Cyfieithu

Cyfieithwch y brawddegau canlynol i'r Gymraeg (25%)

1. There's no milk left. Someone needs to go to the supermarket!
2. We are buying a house in Cardiff because our families live there.
3. She saw a story about the storm online, but she couldn't remember where.
4. The message arrived before the end of the month.
5. Are you staying in France next year?
6. The children walked all the way on their own.
7. I would like to meet your new friend myself.
8. We have a car with enough room for everyone.
9. They will be available until seven o'clock to answer questions about the scheme.
10. In the video he is talking about his plans for the future.

## C: Ysgrifennu

Ysgrifennwch draethawd byr ar **un** o'r testunau hyn. (Awgrymir eich bod yn ysgrifennu tua 500 o eiriau. Cofiwch mai cywirdeb ac iaith dda sydd bwysicaf, ac nid faint yr ydych yn ei ysgrifennu.) (50%)

Fy hoff fwyd
Y bobl sy'n byw yn fy ardal
Cyfryngau cymdeithasol
Digwyddiad yn ystod fy mhlentyndod
Fy mhryder mwyaf